LEFEL 2



# SGILIAU BWYD A MAETH CYMUNEDOL (BLYNYDDOEDD CYNNAR)

**Bydd y Cwrs Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol Lefel 2 ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar yn eich galluogi i rannu negeseuon bwyd a maeth cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i blant (dan 5 oed) a theuluoedd, ac i wella'r ddarpariaeth bwyd a diod yn eich lleoliad blynyddoedd cynnar.**

**Mae'r cwrs achrededig hwn yn addas ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant dan 5 oed fel gwarchodwyr plant, cylchoedd chwarae, canolfannau teulu a staff meithrinfeydd.**

**Os yw lleoliad blynyddoedd cynnar sy'n cynnig darpariaeth prydau llawn yn dymuno gwneud cais am safon Boliau Bach / Safon Arfer Gorau Boliau Bach, mae angen i o leiaf un aelod staff cyfredol fod wedi cwblhau a chael achrediad Agored Cymru ar y cwrs hwn.**

## TROSOLWG O'R HYFFORDDIANT

- Rhan o raglen SGILIAU MAETH AM OES® Cymru gyfan a ddatblygwyd gan Ddietegwyr Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru yw hwn
- Wedi'i achredu gan Agored Cymru fel cymhwyster Lefel 2 (2 uned, 20 awr dysgu)
- Mae angen i ddysgwyr fod wedi cael cymhwyster addysg hyd at lefel TGAU neu gyfwerth mewn Saesneg a Mathemateg
- Mae'n cynnwys 5 modiwl, pob un yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb mewn ystafell ddosbarth ac astudio hunan-gyfeiriedig.
- Mae opsiynau dosbarthiadau wyneb yn wyneb a rhithiol ar gael
- Fel arfer caiff y cwrs ei gyflwyno dros dair wythnos yn olynol ond gellir ystyried fformatau eraill
- Bydd dysgwyr yn cwblhau portffolio o daflenni gwaith sy'n darparu tystiolaeth bod negeseuon maeth wedi'u deall a bod yr amcanion dysgu wedi'u bodloni

**Modiwl 1**
Deall Egwyddorion Diet Cytbwys

**Modiwl 2**
Manteision Maeth Da ac Yfed yn y Blynyddoedd Cynnar

**Modiwl 3**
Deall Bwydo Babanod

**Modiwl 4**
Sut i hyrwyddo Bwyta ac Yfed yn iach yn y Blynyddoedd Cynnar

**Modiwl 5**
Sut i hyrwyddo Bwyta ac Yfed yn iach yn eich rôl eich hun

*ADBORTH GAN RAI SYDD WEDI MYNYCHU CYRSIAU BLAENOROL*

*'Cwrs ardderchog a diddorol wedi ei drefnu'n dda. Rwyf yn ei argymell yn fawr'*

*'Amhrisiadwy ar gyfer fy ngwaith coginio a chynllunio bwydlenni ar gyfer plant 2-3 oed'*